# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Andrea Lewis | Adran Etholiadol: | Treforys |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynlluniau a gyflwynwyd yn Nhreforys - Gwnaethom gyflwyno nifer o gynlluniau ar draws y ward gan wrando ar eich gofynion, eich pryderon a'ch problemau, gan gynnwys y canlynol:-

- Blodau gwyllt ac arddangosiadau blodau ar draws ward Treforys;
- Trefnu ac ariannu cynnau goleuadau Nadolig Treforys yn 2016, cysylltu â Swyddogion arweiniol y cyngor, y Tabernacl Treforys, Gwasanaethau Traffig Fforest, Gwasanaeth Tân Treforys, Heddlu De Cymru, The Wave, Marchnad Dreforys, Côr Phoenix, Côr Clwb Rygbi Treforys, Ambiwlans Sant Ioan ac Ysgolion Cynradd Treforys.
- Cefnogi adfywio Stryd Woodfield trwy sefydlu Marchnad Ffermwyr misol yn Nhreforys
- Gosod canllaw i gerddwyr newydd ar Stryd Woodfield
- Gosod bwrdd picnic yng Nghyfadeilad Llys Gwernen
- Problemau parcio ger siopau Cwmrhydyceirw – cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn cytuno ar Orchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer y ffordd gyswllt rhwng Heol Chemical/Heol Dyfan, gan osod llinellau melyn ac arwydd "dim parcio"
- Gosod safle bws ar Heol Clydach, Ynystawe
- Llinellau melyn dwbl ar Heol y Parc
- Gosod croesfannau heb eu rheoli (cyrbau isel) wrth gyffordd Heol y Deri/Heol Chemical a chyffordd Heol Maes y Gwernen/Heol Cwmrhydyceirw i wella mynediad i'r cyhoedd.
- Cynhaliwyd nifer o ymweliadau safle a chyfarfodydd cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â materion priffyrdd ar Heol y Fran a Heol Maes Eglwys. Mae'r gwaith hwn yn parhau.
- Rhoddais gyfraniadau i ysgolion cynradd er mwyn iddynt brynu cyfarpar addysgol
- Gwnaethom ymgyrchu dros ddiogelu Swyddfa Bost y Goron yn Nhreforys
- Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i geisio mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Stryd Woodfield ac aethom i nifer o gyfarfodydd gyda masnachwyr lleol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon
- Rydym wedi cynnal cymorthfeydd wythnosol yn Llyfrgell Treforys a chymhorthfa fisol yn y Farchnad Ffermwyr.
- Cynhaliwyd cymorthfeydd rheolaidd yn y Neuadd Goffa

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr isadran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cabinet | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Cyngor | 16 | / | 16 | 100 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **Cyffredinol** | **36** | **/** | **43** | 84 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Yn ogystal â fy rolau a'm cyfrifoldebau fel Cynghorydd Ward, mae cyfrifoldebau fy mhortffolio cabinet yn cynnwys:-
Rheoli Tai Cyngor; Atgyweiriadau Tai Cyngor; Polisi Tai, Tai Fforddiadwy ac Opsiynau Tai; Cynlluniau Adnewyddu Tai; Adnewyddu ac Addasu Tai; Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC); Nodi Modelau Masnachol Newydd a'u Rhoi ar Waith; Creu Incwm o'r Modelau Masnachol; Cynlluniau Cyllideb Ddirprwyedig Cynghorwyr; Fframweithiau i Wella Caffael; Cynlluniau Ynni; Bargen Ddinesig (Cyswllt â Menter, Datblygu ac Adfywio); Cynlluniau Gwresogi Ardal; Tai Lloches (Cyswllt ag Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn); Rhaglen Adeiladu Ysgolion - Addysg o Safon (AoS) 2020; Elfen Arweiniol Abertawe Gynaliadwy

Yn ystod 2016-2017 rwyf wedi gweithio'n helaeth ar feysydd cyflwyno o fewn fy mhortffolio. Oherwydd y newidiadau i'r System Cymorthdaliadau Cyfrif Refeniw Tai, rydym wedi darganfod ein bod yn gallu dychwelyd i ailddechrau adeiladu tai cyngor am y tro cyntaf mewn degawdau. Gwnaethom nodi dau safle peilot gyda'r cyntaf ar Ffordd Colliers, Penderi (Ffordd Milford gynt) a'r ail ym Mharc yr Helyg, Gellifedw. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, gyda'r safle cyntaf yn darparu 10 cartref teulu 2 ystafell wely ac 8 fflat un ystafell wely, wedi'u hadeiladu yn ôl safonau "Passivhaus" er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau biliau ynni ar gyfer tenantiaid y cyngor. Rhoddwyd yr allweddi cyntaf i'n tenantiaid newydd ym mis Hydref 2017. Cyflwynwyd y datblygiad arloesol hwn gan ddefnyddio'n gweithlu uniongyrchol gyda'r Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol, gan helpu i adeiladu ar ein harbenigedd tai ac ennill gwybodaeth arbenigol am Passivhaus wrth gefnogi prentisiaethau er mwyn helpu i ddatblygu'n cenhedlaeth nesaf o grefftwyr ifanc. Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd gyda'r Cynllun Strategol Rhagor o Gartrefi a fydd yn cyfeirio sut byddwn yn datblygu safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor yn y dyfodol er mwyn darparu tai mwy fforddiadwy yn Abertawe er mwyn bodloni'r galw cynyddol di-baid.
- Mae buddsoddiad mawr gan ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei glustnodi i gynlluniau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a gynhaliwyd ar ein cartrefi cyngor, gan ddarparu gwaith megis ceginau, ystafelloedd ymolchi a boeleri newydd a gwaith amgáu i wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi er mwyn bod o fudd i denantiaid y cyngor.
- Gyda chymorth Tîm Digwyddiadau'r Cyngor, cynhaliom ein "Sioe Deithiol Awyr Glân" gyntaf ar Ddiwrnod y Ddaear ac roedd yn llwyddiant mawr, gan hyrwyddo cerbydau di-garbon. Cefnogwyd y digwyddiad gan ein partneriaid sector cyhoeddus a phreifat lleol yn ogystal â gwneuthurwyr ceir masnachol.
- Gweithiais yn agos gyda Thîm Masnachol newydd y Cyngor i archwilio i ffyrdd newydd o weithio yn yr awdurdod lleol, gyda'r tîm yn cyflwyno swm sylweddol o arbedion ac effeithlonrwydd trwy eu gwaith cydweithredol gyda holl adrannau'r cyngor.
- Gweithiais yn agos gydag Aelod y Cabinet dros Addysg i gefnogi'r Rhaglen Adeiladu Ysgolion, gan weld prosiectau megis adnewyddu Ysgol Gynradd Pentre'r Graig yn dwyn ffrwyth.
- Ffurfiwyd ein Strategaeth Ynni Gorfforaethol gyntaf, gyda'r cynllun gweithredu ynni yn gweithio ochr yn ochr â'n Strategaeth Lleihau Carbon.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cynnau Goleuadau Nadolig Treforys 2016 - Gweithiodd eich Cynghorwyr yn Nhreforys ar y cyd i drefnu a chyflwyno digwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig Treforys 2016 ar Stryd Woodfield, digwyddiad a oedd yn llwyddiant ysgubol. Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad gan gynnwys y gymuned leol lle'r oedd oddeutu 2,000 o bobl yn bresennol a chafwyd yr awyrgylch gorau erioed! Edrychwn ymlaen at wneud y cyfan unwaith eto'r flwyddyn nesaf!
Arddangosfeydd Blodau - Trefnodd eich Cynghorwyr yn Nhreforys yr arddangosfeydd blodau a blodau gwyllt helaeth a welir drwy ward Treforys.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

16/05/2017 - Cyllid Llywodraeth Leol
11/05/2017 - Côd Ymddygiad
05/01/2017 – Cadeiryddion Newydd (Hyfforddiant i Lywodraethwyr)
07/07/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn ymdrin â nifer mawr o faterion ward ar ran preswylwyr Treforys, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, parcio, tai a phryderon eraill.

Cynhaliais Gymorthfeydd Cynghorwyr yn wythnosol yn Llyfrgell Treforys ar sail rota gyda'm cydweithwyr ward, bob bore Sadwrn o 10am tan ganol dydd. Roeddwn hefyd yn cynnal cymorthfeydd misol yn Neuadd Goffa, Cwmrhydyceirw.

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn aelod o fwrdd y neuadd goffa. Es i gyfarfodydd PACT (Yr Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) ac i nifer o gyfarfodydd cyhoeddus ac es i gyfarfodydd rheolaidd fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Treforys ac fel llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Treforys. Es i gyfarfodydd Gweithrediaeth a Grŵp Llafur rheolaidd. Roeddwn, ac rwy'n parhau i fod yn Ysgrifennydd Grŵp Llafur Dinas a Sir Abertawe.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28.11.2017 |